

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr a Chymry Cymraeg i bawb ddarllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyfrol 3 Rhif 2

Yn rhad ac am ddim

Mai 2022



Panorama Preseli

Cerdded yn yr Haul

gan Rob Evans

Ar ddydd Sadwrn i 19eg o fis Mawrth roedd aelodau o Gymdeithas Edward Llwyd yn cerdded yn ardal Aberteifi / Cilgerran, roedd hi'n ddiwrnod hyfryd, haul cynnes ac awyr las ac roedd y daith yn bleser. Mae'n dipyn o bellter o Abertawe i Aberteifi wrth gwrs ond roedd golygfeydd ardderchog i fwynhau. Mae un lle, ychydig o filltiroedd cyn cyrraedd Crymych, lle allwch chi aros ac edmygu holl banorama mynyddoedd Preseli. Roedd rhaid i mi dynnu i mewn. Mae'r llwyni rhwng y gilfach a'r cae wedi cael eu torri'n fyr ac roedd cennin Pedr mewn blodau o'i flaen. Roedd rhaid i mi dynnu llun.

Yn union fel fy arfer roeddwn i'n rhy gynnar felly es i chwilio am fy ffeffryn archfarchnad, nid i brynu ond er mwyn arbed amser ar ôl y daith. Doedd dim rhaid i fi fynd yn bell ac mi oeddwn i'n ôl yn y man cyfarfod ar amser rhesymol. Roedd tua ugain ohonom ni os dw i'n cofio'n iawn a phobl doeddwn i ddim wedi gweld am sbel – mae'r hen Cofid yma wedi bod yn dipyn o boen yn y pen ôl!

I ddechrau roedden ni'n cerdded ar lwybr yr hen reilffordd oedd yn cysylltu Caerfyrddin ac

Aberteifi, llwybr oedd yn rhedeg wrth ochr yr afon Teifi. Roedd y llanw i mewn a'r afon yn edrych yn llydan dros ben, ar ein hochr dde roedd cors enfawr yn llawn gweiriau melyn tal yn plygu yn yr awel ysgafn. Mae llawer o guddfannau adar a ches i lun o ylfinir prysur yn chwilio am fwyd ar ochr yr afon. Mae llawer i weld fan hyn a doeddwn i ddim ond hanner awr i mewn i'r daith!



Y Gylfinir

Cyrraedd y warchodfa natur wedyn a dilyn y llwybr trwy'r coed tuag at Gilgerran a blodau'r gwanwyn yn ein croesawu ni ar yr ochrau. Dw i wedi bod trwy'r pentref llawer gwaith ond wedi cyrraedd o'r cyfeiriad yma, cerddon ni lawr i waelod cwm yn llawn o fythynnod wedi eu gwasgu wrth ei gilydd, croesi afon a dringo'r ochr arall. Pan dach chi ar droed mae'r byd yn gallu bod yn hollol wahanol.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Yr Afon Teifi

Gweld y castell wedyn ond roedd ar glo ar ôl i ryw rapsgaliwns cael eu gweld yn dringo'r waliau yn ddiweddar. Roedden nhw'n lwcus nad oedd rhywun wedi tywallt tar poeth drostyn nhw! Bydd rhaid ymweld eto er mwyn cael gweld y castell. Roedd y llwybr yn disgyn at lannau'r afon rŵan a beth oeddwn i'n gweld yn y pellter? Lle picnic â byrddau - a lle chwech hefyd, da iawn. Mae hi'n braf iawn cael picnic ond trwy'r amser roeddwn yn sylweddoli bydd rhaid i ni ddringo yn ôl i'r pentref unwaith eto. Dyna un o'r pethau cyntaf dach chi'n dysgu - os dach chi'n mynd i lawr dach chi'n siŵr o orfod dringo fyny eto wedyn.

Ond doedd mynd yn ôl at y pentref ddim mor wael â hynny ac roedd amser i ni ymweld â mynwent yr eglwys ble roedd hen garreg yna efo marciau ogam, wel mi oedd marciau ogam ar un adeg. Yn anffodus mae natur yn gallu gwneud i bopeth ddiflannu yn y pen draw ac mi ydan yn son am garreg sydd yn dyddio nôl i oes y Rhufeiniaid. Dilyn y llwybr trwy'r coed wedyn efo'r afon yn bell o danom ni, yn sydyn roedden ni yn ôl wrth Ganolfan y Warchodfa Natur. Roedd y caffi yn dipyn o atynfa ond tra o'n i'n sefyll mewn rhes yn aros a'r haul yn tywynnu trwy'r ffenest penderfynais gael hufen iâ. Dewis doeth hefyd, roedd pawb yn genfigennus!

Cerdded yn hamddenol yn ôl at y ceir, newid fy sgidiau, sgwrs fach a dweud ta ta wrth bawb cyn anelu am adref. Diwrnod braf, ardal braf a chwmni da. Beth gwell i wneud ar ddydd Sadwrn?

Ond roedd un peth arall i mi wneud cyn gadael Aberteifi – mynd i fy hoff archfarchnad i brynu **2**

puprynnau melys a sgaliwns ar gyfer y 'stir-fry' heno!

Diolch yn fawr iawn i Geoff Davies am yr holl waith baratoi, y manylion difyr cawson ni ar y daith ac am drefnu tywydd mor braf.

Dewch ar un o'n teithiau!

Os dach chi'n clywed ein bod ni'n cerdded yn eich ardal bydd croeso mawr i chi ymuno â ni. Cyfle gwyh i chi gael diwrnod allan yn yr awyr iach a siarad iaith y nefoedd!

Mae'n gyfle da hefyd i weld mwy o harddwch Cymru, afonydd a rhaeadrau mewn llefydd anghysbell, blodau gwyllt o bob math yn enwedig yn y gwanwyn. Mae tebygrwydd cryf bydd rhywun yn gallu enwi'r planhigion, adar ac anifeiliaid hefyd. Cewch ddiwrnod o fwynhad pur! Beth amdani?

Bedd yr Iaith?

gan Patrick Soper

Rydym yn byw mewn gwlad o ddau ran: 'Wales' yw'r rhan fwyaf, lle mae'r iaith Saesneg ym mhob man, a phrin caiff y Gymraeg ei gweld neu'i chlywed. Y rhan arall yw 'Cymru' - dim ond rhan fach - lle'r gallwch glywed mymryn o Gymraeg yn cael ei defnyddio o dro i dro.

Pobl dawel a diymhongar ydyn ni. Dros y canrifoedd y cawson ni ein cyflyru i gredu bod ein hiaith a'n diwylliant yn isradd. O ganlyniad rydym wedi cadw ein Cymreictod dan glo, bron fel cyfrinach. Ac wrth i'r blynyddoedd mynd heibio mae 'Cymru' wedi mynd yn llai tra bod

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

'Wales' wedi tyfu. Os ydym yn defnyddio'r Gymraeg o gwbl gyda'n gilydd rydyn yn dueddol siarad - cylch cyfyng yw hyn.

Beth i'w wneud, felly?

Yma yn sir Benfro mae gynnon ni dri phapur newyddion lleol; Saesneg yw'r iaith bob un wrth gwrs. Mae gen i rota, a phob pythefnos dyma fi'n e-bostio 'llythyr darllenwr' yn y Gymraeg at y papur nesaf ar y rota; dim ond 100-200 o eiriau, ac ar unrhyw bwn.

Dim ond ychydig o'r rhain sydd wedi'u cyhoeddi, ond sdim ots. Mae'n bwysig i ddal ati wrth anfon darn arall i lawr y wifren - diolch byth am e-bost!

Problem. Dim ond un unigolyn ydw i. Mor hawdd i anwybyddu. Ond dychmygwch ymateb y papurau tasai mil o unigolion yn anfon 'llythyr darllenwr' yn Gymraeg at un o'u papurau newyddion lleol bob pythefnos. Gallwn ni ddechrau chwildro, yn dangos bod yr iaith Gymraeg yn fyw o hyd .. ac yn tyfu.

Felly, beth amdani? Gydag ysgrifbin neu allweddell y gallwn ni godi ymwybyddiaeth ein hiaith, os rydym yn dal ati. Peidiwch â dweud wrthyf fod eich Cymraeg "ddim yn ddigon da". Rwtsh! Mae fy Nghymraeg i'n wael hefyd. Yn wir. Os rydym yn fodlon dibynnu ar esgusodion eiddil, bydd ein hiaith - ar ôl miloedd o flynyddoedd - yn ei fedd cyn diwedd dwy genhedlaeth; yr amser i weithredu yw nawr, nid yfory.

Cael Paned

gan Claire Boot



"Wyt ti eisiau bisgeden arall?" gofynnodd Andrea.

"Diolch," atebodd Hannah. "Bourbon yw fy hoff fath!"

Eisteddon nhw yng ngardd Andrea. Roedd hi'n ddiwrnod braf a chysgodd cath Andrea yn yr heulwen. Roedd pwll bach a llawer o flodau a gwenyn.

"Mae gardd hyfryd gyda ti, Andrea," meddai Viv, wrth gymryd Garibaldi. "Dw i wedi bwyta gormod o fisgedi. Dw i'n gorfod stopio!"

Roeddwn nhw'n ffrindiau o'r dosbarth Gymraeg. Dechreuon nhw ddysgu ar yr un pryd a chwrddon nhw yn yr wythnos gyntaf. Yn anffodus, ni ddaeth Ellie (ffrind arall o'r dosbarth) heddiw achos roedd annwyd arni hi.

Roedd y ffrindiau'n siarad am ddysgu'r iaith.

"Dw i ddim yn gallu cofio unrhyw beth!" cwynodd Viv. "Dw i'n dwp!"

"Dwyt ti ddim," meddai Andrea. "Rwyf ti'n wneud yn dda iawn."

"Ond ro'n i mewn penbleth fawr wythnos diwethaf. Bydda i byth yn deall pan ddylwn i ddefnyddio 'cael' neu 'gorfod'."

"Beth am 'gyda fi' neu 'arna i fi'?" ychwanegodd Hannah.

"A 'wedi'? Dim syniad!"

"Na fi, chwaith," cytunodd Hannah. "Mae Cymraeg yn anodd."

"Weithiau," meddai Andrea. "Ond dw i'n credu mai Saesneg yw'r broblem."

"Pam?" gofynnodd Viv.

"Edrychwch at y ferf 'to have'. Yn Saesneg, mae un gair yn golygu llawer o bethau. Gormod o bethau. 'To have a garden, to have eaten a biscuit, to have to stop, to have a cold, to have another cuppa.' Dim ond un gair - mae'n gymhleth!"

"Ti'n iawn, Andrea," meddai Hannah. "Yn Gymraeg, mae ffyrdd gwahanol o ddweud pethau gwahanol. Mae'n fwy synhwyrol."

"Wel, dw i'n teimlo'n well," gwenodd Viv. "Does dim problem gyda fi. Mae problem gyda'r Saesneg."


"Yn union," cytunodd Andrea. "Paned arall?"

"Diolch," dwedodd Viv. "Bydda i'n cael paned arall i ddathlu fy hyder newydd!"

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Y Cynhwysyn Arbennig

gan Liz Backen



Roedd Tomos wedi bod yn coginio ers i Sara gadael y tŷ gyda'u meibion i fynd â nhw i'r ysgol. Edrychodd ar y llanast oedd e wedi creu: roedd fowlenni a sosbenni dros y cownteri i gyd, a phentyrrau o lestri yn y sinc. Penderfynodd e eistedd gyda phaned yn darllen yr hen lyfr rysâit cyn dechrau tacluso. Anrheg priodas oddi wrth ei fam oedd y llyfr. Roedd pob un o'r ryseitiau ynddo wedi cael eu hysgrifennu â llaw gan ei fam mewn ei hysgrifbin du orau.

'Byddwch chi'ch dau yn angen hwn,' buodd ei fam yn dweud ar ôl eu priodas. Heb os roedd ei fam yn meddwl am brydau o fwyd rhamantus, gyda chanhwyllau siŵr o fod. Ond fel arfer, roedd y teulu ifanc yn bwyta ymhlith teganau plastig a chreonau, llwyth o greonau. Mae'n bosib coginio bysedd pysgod yn weddol dda heb unrhyw fath o help, felly do'n nhw ddim wedi defnyddio'r hen lyfr rysâit unwaith.

Ond Dydd Santes Dwynwen oedd e ac roedd Tomos eisiau gwneud rhywbeth sbesial. Roedd e wedi treulio amser eithaf hir yn pori drwy'r llyfr, yn chwilio am rywbeth perffaith. Roedd e wedi dewis 'risotto madarch ac asbaragws.' Roedd e wedi dilyn y rysâit yn fanwl a nawr roedd e'n ymlacio gan ddarllen yr hen ryseitiau. Roedd e'n mwynhau gweld llawysgrifen ei fam oedd wedi dod â llanw o atgofion ei blentyndod yn ôl. Gallai Geraint gofio'r ryseitiau i gyd yn dda iawn: pwdin reis (bob Dydd Sul ar ôl dod adre o'r capel drafftlyd), a thwmpenni gyda chaserolau enfawr (bron bob nos yn y gaeaf), ac wrth gwrs, y bisgedi ffansi oedd yn cael eu rhoi ar ei llestri gorau pan ddaeth y gweinidog draw.

Yng nghefn y llyfr rysâit roedd ei fam wedi ysgrifennu rhestr hir o gynhwysion defnyddiol:

pethau cyffredin iawn, sbeisys, sawsiau a garlleg er enghraifft. Doedd Tomos dim wedi sylwi arno fe o'r blaen. Reit ar y gwaelod, roedd un gair, ac wrth ei ymyl, roedd ei fam wedi ysgrifennu, 'Y cynhwysyn y mwyaf pwysig yn y llyfr hwn.'

Chwarddodd Tomos, a rhoi'r hen lyfr rysâit nôl ar y sillf. Agorodd e'r rhewgell a chlirio'r bwrdd.

Dechreuodd e olchi'r llestri.

Gwenodd Sara arno fe, y canhwyllau'n bwrw cysgodion euraidd dros ei hwyneb. 'Beth sy yn hwn 'te? ofynnodd, wrth roi darn o fys pysgod ar ei fforc.

'Y cynhwysyn mwyaf pwysig yn y byd,' atebodd Tomos. 'Cariad.'

Diolch yn fawr am y stori Liz. Mae hi wedi gwneud i mi dwrio ymysg fy mhethau am lyfr ryseitiau Mam. Roedd Mam wrth ei bodd efo coginio ac roedd hi'n torri ryseitiau allan o'r Times - ar ôl i Dad orffen ei ddarllen wrth gwrs.

Roedd hi'n cyfnewid ryseitiau efo ffrindiau ac yn ei hysgrifennu nhw yn y llyfr, pob un ohonyn nhw yn ei hatgoffa hi o ffrindiau. Roedd hi'n hoffi gwneud Sturdy Cake, nid cacen oedd yn gryf ac yn gadarn ym mhob tywydd ond rysâit oedd hi wedi cael oddi wrth Mrs Sturdy. Mae Pegi, Hafina, Carol, Mary a llawer mwy yn serennu yn y llyfr.

Ar un adeg mi wnaeth Mam a Dad benderfynu cynnig gwely a brecwast yn yr haf ac am gyfnod yn cynnig cinio ar y noson. Yn yr ystod cyn y tymor gwyliau roedd hi'n gwneud gwaith ymchwil ac yn gwneud pethau fel Rhubarb a Butterscotch Tart a ni'r teulu oedd y panel blasu. Roedden ni'n ffodus dros ben.

Llun o lyfr mam sydd ar ben y stori yma ond nid dim ond ryseitiau mae'r llyfr yn cynrychioli ond Mam hefyd. Mae hanner y tudalennau mewn llawysgrifen Mam ac mae'r inc yn rhedeg mewn llefydd wrth i'r llyfr gael ei sbasio.

Wrth i chi fynd yn hyn mae atgofion yn bwysig a dw i wedi mwynhau edrych yn ôl unwaith eto.

Ac mae diolch i chi, Liz am hyn. - Rob

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Tudalen y Dechreuwyr

Rywbeth hawdd i chi ddarllen ac, os dach chi eisiau, mae croeso i chi ysgrifennu rhywbeth hawdd i mi roi yn Y Wennol. Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad, dw i'n cywiro popeth! Ewch amdani - mae ysgrifennu yn hwyl!

Byw efo Alpacas

gan Amanda Davies

Amanda dw i. Dw i wedi ymddeol. Dw i'n dod o Swydd Stafford yn wreiddiol a symudais i ogledd Cymru deg mlynedd yn ôl. Dwi'n byw ym Mhontllyfni, pentre' bach ger Caernarfon.

Dw i'n dysgu Cymraeg gyda Choleg Gwent a hefyd gyda SSiW. Dw i newydd ddechrau dysgu Sylfaen yr wythnos yma.

Mae dau gi gyda fi. Eu henwau yw Peggy a Hugo. Mae tri alpacas gyda fi hefyd. Eu henwau yw Tom Dic a Harri. Hefyd mae llawer o ieir a cheiliogod gyda fi. Dw i'n mwynhau cerdded gyda fy nghŵn a dw i'n hoffi garddio yn fawr. Hefyd dw i'n mwynhau ymarfer peintio a darlunio.

Dw i wrth fy modd yn byw yng Nghymru, mae hi'n brydferth iawn. Mae fy ngŵr yn Gymro ond symudodd i Lerpwl pan oedd e'n ifanc iawn. Felly dyw e ddim yn siarad Cymraeg. Dw i eisiau dysgu Cymraeg achos dw i eisiau siarad gyda ffrindiau yn eu hiaith hyfryd.

Fy Hoff Deulu

gan Janette Lewis

Mae fy hoff deulu'n byw yn Nyffryn Glaslyn, Gweilch y Pysgod Mrs G ac Aran. Dw i'n mwynhau gwyllo eu nyth nhw ar y rhyngwrdd pan maen nhw efo ni o'r gwanwyn tan yr haf hwyr.

Dach chi'n medru gweld pob peth - genedigaeth, camau cyntaf, ffraeon, gadael adre, marwolaethau; yn union fel ein bywydau ni. Maen nhw'n gwneud i chi chwerthin, gofidio neu grio; fel ein teulu go iawn ni yn gwneud!

Rhieni da iawn ydy Mrs G ac Aran. Maen nhw wedi magu llawer o gywion a chael wyrion rŵan hefydd.

Dw i'n colli'r Gweilch y Pysgod pan dydyn nhw ddim yma

Cyfrifiadur

gan Liz Price

Roeddwn i'n meddwl

Sut i helpu

Fi ddysgu am Gymraeg

Siarad neu ganu caneuon

Neu ddarllen mwy o lyfrau?

Ond dim ond ddod neu'r diwrnod gynt,

Fe wnes i feddwl i fi fy hun

Newid iaith y cyfrifiadur

i'r Gymraeg - cewch y llun?

Ond, rŵan, yn lle helpu llawer

Dw i'n teimlo llawer mwy hen

Achos pan dw i'n trio gweithio

Mae'n gwneud llanast efo fy mhen!

Cymorth yn yr Amwythig

gan Gareth Evans

Gareth dw i, a dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg dros sawl blwyddyn. Dw i'n gwneud cwrs Cymraeg a'r lein dros Zoom ond achos mod i'n byw yn yr Amwythig yn Lloegr does 'na lawer o gyfle i ymarfer siarad efo dysgwyr eraill.

Yn y Wennol mis diwethaf roedd Bryan Roberts yn sgwennu am y grŵp sgwrsio sy'n cyfarfod dwywaith y mis yn nhafarn "The Grove" yn yr Amwythig, a dw i'n mynd i'r grŵp ac mae o'n llawer o help i mi.

Roedd fy Mam yn siarad Cymraeg iaith gyntaf ond wnaeth hi ddim siarad efo ni yn Gymraeg pan roedden ni'n ifanc, felly mi ges i fy magu yn methu siarad Cymraeg. Mae gen i deulu sy'n siarad Cymraeg a dw i'n ymarfer efo nhw pan dw i'n medru. Ond mae grŵp sgwrsio yn wych i mi, felly diolch i Bryan am ei drefnu.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Beth nesaf?

Cyrsiau'n dod i ben yn yr haf?

Os felly dyma'r amser i sefydlu grŵp yn eich ardal er mwyn i chi a'ch cyd-ddysgwyr cadw eich Cymraeg i fynd. Mae mor syml i'w wneud, does dim ond rhaid i chi wneud yn siŵr bod cyfeiriadau pawb gennych chi, dewis rywle gyhoeddus i gyfarfod a dyna chi.

Mae'n bwysig bod chi'n cyfarfod ble mae pawb yn eich gweld chi achos, unwaith mae'r Cymry yn eich clywed chi bydden nhw eisio gwybod pwy ydach chi a phopeth amdanoch chi. Byddech chi wedi dechrau ar eich taith i fyd yr iaith. Ac mae'n fyd pleserus achos mae'r iaith angen pobl fel chi, pobl sydd wedi gwneud ymdrechion mawr i'w dysgu.

Byddech yn helpu ni i gadw'r iaith i fynd ac mae hynny'n bwysig dros ben achos mae pwysau mawr ar yr iaith. Ces i fy ngeni yn sir Fôn mewn pentref ble roedd y Gymraeg i'w glywed ym mhob man ond pan dw i'n mynd yn ôl dim ond Saesneg dw i'n clywed. Mae hynny'n drist ofnadwy.

Mae digon o ddysgwyr yn cofrestru i ddysgu pob blwyddyn i wneud môr o wahaniaeth ond er bod llawer yn cofrestru mae llawer yn methu torri mewn i'r byd Gymraeg. Bydd ffurfio grŵp yn cadw chi yn yr iaith.

Nid yn unig hynny mi fydddech chi yna i roi cefnogaeth i'r dysgwyr sydd yn eich dilyn chi, rhoi'r cyfle iddyn nhw siarad a chael hwyl yn yr iaith. Pob blwyddyn bydd eich grŵp yn tyfu a bydd mwy a mwy o ddysgwyr yn cyrraedd y gymuned Cymraeg.

Petasai hyn yn digwydd trwy Gymru gyfan pwy ag ŵyr faint o ddysgwyr bydd yn cael y cyfle i fwynhau siarad Cymraeg pob dydd.

Pan dach chi wedi sefydlu'r grŵp gadewch i mi wybod a byddaf yn ei restru yn Y Wennol.

What next?

Courses coming to an end in the summer?

If so this is the time to set up a group in your area so that you and your fellow learners keep your Welsh going. It is so easy to do, you only have to make sure that you have email addresses from everyone, choose somewhere public where you can meet, and there you are.

It's important that you meet where people can see you because, once Welsh people hear you they will want to know who you are and everything about you. You will then have begun your journey into the world of Welsh. And it is a very pleasurable world because the language needs people like you, people who have made such an effort to learn.

You will be helping us to keep the language alive and that is so important because of the pressures on the it. I was born in a village in Anglesey and Welsh was heard everywhere but when I go back now I only hear English. I find that very sad.

There are enough learners registering to learn every year to make a huge difference but so many find it difficult to break into the Welsh world. Forming a group would keep you in the language.

Not only that, you would be able to support those learners who follow you, to give them the chance to chat and have fun through the medium of Welsh. Each year your group will grow and more and more learners will reach the Welsh community.

If this happened all over Wales who knows how many learners would get the chance to speak Welsh every day.

When you've set up your group let me know and I can list it in the Wennol.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Cerdded yn ardal Ystrad Fflur

Dyma lun o bobl hapus dros ben, pam? Achos bod nhw ar fin ddechrau ar daith yng nghefn gwlad hardd Cymru. Bydden nhw'n siarad Cymraeg trwy'r amser, yn tynnu coesau ac yn cael hwyl. Yr wythnos yma maen nhw wedi casglu yn ardal Ystrad Fflur.

John Williams sydd yn arwain ac mae'n adnabod yr ardal yn dda. Mae pawb yn edrych ymlaen at ddysgu am hanes yr ardal a'r bobl oedd yn byw yma yn yr hen ddyddiau.

Felly, ffwrdd â ni i fyny'r ffordd am sbel cyn troi i'r dde a chroesi dros afon Glasffrwyd ac i mewn i'r coed. Wel dw i'n dweud 'i'r coed' ond mae rhan fwyaf wedi cael eu clirio erbyn hyn. Mae'r ffordd yn mynd â ni yn uwch ac yn uwch, yn raddol wrth gwrs, ac mae'r golygfeydd yn

ysblennydd. Byddech chi byth yn gweld y tirlun fel hyn o ffenest eich car.

Roedd gan John straeon di-ri am yr hen ddyddiau a gan fod nifer o bobl leol efo ni roedd digon o straeon eraill hefyd. Ardderchog!

Ac yn yr ail lun dyma ni wedi cyrraedd ein lle picnic ac yn gyfleus iawn roedd y lle yn llawn o foncyffion er mwyn i ni eistedd yn gyfforddus i fwyta. Tydyn nhw'n edrych yn hapus!

Beth well i'w wneud ar ddydd Sadwrn braf, cerdded trwy gefn gwlad Cymru, siarad Cymraeg a gwneud ffrindiau newydd. Mae croeso mawr i bawb ymuno â ni ac mae'n ffordd effeithiol iawn i chi sydd yn dysgu Cymraeg i ymarfer eich iaith, i ddysgu mwy, i ddatblygu hyder ac i weld y drws i mewn i'r gymuned Gymraeg.

Dewch efo ni - byddech chi'n mwynhau!



Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1126027

Teithiau Maes Mis Mai

7/5/22 Ar Gyrion Pentyrch

Taith tua 5.5 milltir drwy gaeau ac ar ffyrdd gwledig o amgylch Pentyrch. Golygfeydd o Ddinas Caerdydd a Mynydd y Garth. Peth dringo graddol. Gall fod yn fwdlyd mewn mannau.

Man cyfarfod: Maes parcio Clwb Rygbi Pentyrch, Heol Penuel - y pen pellaf o adeilad y Clwb.

Cod post agosaf: CF15 9QJ, ST099816
Arweinyddion: Huw Jones 07312 122280
Heulwen Jones 07958 129538

14/5/22 Tyddewi - y Ddinas a'r Arfordir

Cylchdaith oddeutu 7 milltir o hyd (ond fe ellir ei chwto) o gwmpas y ddinas hudolus hon sy'n cwmpasu llwybr yr arfordir, hanes Dewi Sant a'r Gadeirlan ynghyd a thirwedd Pentir Dewi. Ambell ripyn cymedrol hwnt ac yma, ond mae'r llwybr yn serth allan o Borth Clais.

Man cyfarfod: Maes Parcio Bae Caerfai.

Cod Post agosaf SA62 6QT, SM759243
Arweinydd: Gareth Jones
01239 654309 07507 091689

21/5/22 Bro Gŵyr

Cylchdaith tua 7 milltir, yn dilyn rhan o Lwybr yr Arfordir. Drwy Goed Nicholaston, (yn y gobaith fydd blodau'r gwanwyn i'w gweld) heibio Castell Penrice a dringo i fyny i Gefn Bryn, lle mae ambell ran yn serth. Mi fydd yna olygfeydd arbennig, os fydd yn sych!

Man cyfarfod: Maes Parcio Penmaen, dilyn yr A4118 trwy bentref Parkmill, i fyny 'r tyle a throi i'r dde ger yr eglwys.

SA3 2HQ, Cod Post Agosaf SS531888
Arweinydd: Eirian Davies 01792 844821

28/5/22

Rhymini, Tredegar a'r Drenwydd

Dechrau yn Rhymini, dringo'n hamddenol dros y gweundir i Dredegar ac yn ôl trwy Barc Bryn Bach (cartref yr Eisteddfod yn 1990), a'r Drenwydd, pentref hanesyddol ag adeiladwyd yn 1830 ar gyfer gweithwyr y diwydiant haearn. Tua 7 milltir.

Man cyfarfod: Gorsaf Trenau Rhymini
NP22 5LR SO111074

Mae trê 09.16 o Gaerdydd Canolog yn cyrraedd Rhymini am 10.18 (un trê bob awr).

Arweinydd: Alan Williams 07989 451348

Gwynedd a Môn

Am fanylion ewch at:

<https://cymdeithasedwardllwyd.cymru/gwynedd-a-mon-hydref-a-gaeaf-2020/>

Gogledd Dwyrain

Am fanylion ewch at:

<https://cymdeithasedwardllwyd.cymru/gweithgareddau-gogledd-ddwyrain-hydref-2020/>

Profiad Gwych yn Llundain

gan Michael Williams

Yn ddiweddar fe ges i brofiad gwych yn Llundain gyda fy merch Nicola a'i gwr a'i mab awtistig, Luke. Aeth Nicola a Luke i gyngerdd yn Neuadd Albert y llynedd, a mwynhaodd Luke y profiad gymaint nes iddi benderfynu mynd eto eleni. Rhodd Nicola wahoddiad i mi a'i gefell, Susan, i ymuno â nhw.

Arhoson ni mewn gwesty nid nepell o'r Neuadd. Enw'r cyngerdd oedd "Classical Spectacular" ac roedd y perfformiad yn syfrdanol! Y gerddorfa oedd y "Royal Philharmonic" ac roedd dau gôr a thri unawdydd rhagorol yn cyfeilio iddynt. Un peth arbennig am y perfformiad oedd y goleuadau laser a oedd yn

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

troi ymlaen ac i ffwrdd yn barhaus. Roedd y cyngerdd yn debyg iawn i'r "Prom" gan ei bod yn cynnwys hoff ddarnau o gerddoriaeth fel "Pomp and Circumstance" a "Land of Hope and Glory." Ar y diwedd disgynnodd pentwr o falwys o'r nenfwd ar y gynulleidfa.

Dw i'n credu bod Neuadd Albert yn un o drysorau Llundain, a dylai pawb ymweld â hi unwaith yn eu bywydau. Ar ôl y cyngerdd a gorffwys yn y gwesty, aethon ni i fwyty a chael pryd o fwyd ardderchog. Ymunodd chwaer Luke, Jasmine a'i chariad, â ni yn y bwyty ac roedd hi'n achlysur teuluol hyfryd iawn.

Fore trannoeth, roedd y teulu, heblaw fi, eisiau cael reid ar y "London Eye" ger Tai'r Senedd. Roedd yn well gen i fynd i'r Oriel Genedlaethol. Ro'n i moyn gweld peintiad arbennig a oedd yn cynnwys gwrthrych y gwelid ei adnabod pan edrychwyd arno fe o'r ochr gerllaw. Enw'r peintiad ydy The Ambassadors gan Hans Holbein. Er bod y peintiad bron yn 500 mlwydd oed mae'r lliwiau'n dal yn llachar!



Dringo yn Sbaen

gan Cat Hendrie

Cat dw i. Dw i wedi bod yn dysgu Cymraeg am tua thair blynedd. Dw i wedi bod yn dysgu ar fy mhen fy hun efo gwersi ar-lein a dwi'n trio cadw ymlaen efo dysgu pan dw i ar wyliau. Ar hyn o bryd dwi'n gyrru nôl o wyliau bach yn Sbaen efo fy ngŵr. Dan ni wedi bod yn teithio o gwmpas Catalwnia ac Aragon yng ngogledd Sbaen yn ein fan ni. Dringwyr ydyn ni a rhyfeddol ydy'r dringo yn Sbaen. Dan ni ddim yn licio treulio amser mewn dinasoedd neu drefi mawr. Dan ni'n ffeindio nhw rhy brysur. Dan ni'n licio ymweld â phentrefi bach a bod yng nghanol nunlle, i fyny

yn y mynyddoedd efo'r clogwyni ac adar gwyllt o'n cwmpas i gyd.

Mae 'na lawer o fwlturiaid yng ngogledd Sbaen. Pan ro'n i'n ifanc, ro'n i'n harfer meddwl bod fwlturiaid yn erchyll. Dw i'n cofio'n iawn gwylio Robin Hood, y ffilm animeiddiedig Disney, efo fy mam a fy mrawd pan ro'n i tua chwech oed. Ro'n i'n hofni'r ddau fwltur cartŵn sy'n helpu'r siryf drwg. Nes ymlaen, pan ro'n i'n yn yr ysgol a gweld lluniau o fwlturiaid, ro'n i'n meddwl bod nhw'n edrych yn hyll iawn gyda'u gyddfau bachog a'u pennau moel.



Rŵan, dw i wedi sylweddoli fy mod i'n hollol anghywir. Maen nhw'n adar arbennig iawn. Dw i wrth fy modd yn gwylio'r fwlturiaid yn hedfan uwchben pan dw i'n dringo. Weithiau, maen nhw'n hedfan yn agos iawn aton ni a dan ni'n medru gweld nhw yn dda iawn. Dwi wastad yn rhyfeddu pa mor fawr ydyn nhw. Maen nhw'n brydferth a gosgeiddig.

Mae 'na warchodfa fwlturiaid wrth ymyl y Mallos De Riglos yn Aragon. Y Mallos eu hunain yw'r tyrau anferth o gerrig 'conglomerate'. Dydy'r fwlturiaid ddim yn licio gwneud eu nythod ar y tyrau achos maen nhw'n rhy brysur a swnllyd efo dringwr a cherddwyr. Felly mae pobl wedi gwneud gwarchodfa ar wal fawr, i ffwrdd o'r sŵn a'r torfeydd. Dydach chi ddim yn medru mynd rhy agos i'r warchodfa ond mae 'na lawer o leoedd lle dach chi'n medru gweld yr adar arbennig iawn hyn.

Felly, os dach chi yng ngogledd Sbaen, beth am fynd i fyny yn y mynyddoedd i weld y fwlturiaid, neu fynd i'r warchodfa wrth ymyl y Mallos De Riglos.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Y Mab Darogan

Cwmni Theatr Maldwyn

19eg Tachwedd 2022

Dw i'n gwybod bod mis Tachwedd yn bell i ffwrdd ond mi fydd galw mawr ar y tocynnau. Yn wreiddiol cafodd y ddrama yma ei berfformio am y tro cyntaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Machynlleth 1981. Cafodd Theatr Maldwyn ei greu er mwyn perfformio'r ddrama yma ac mae'r ddrama wedi cael ei ail-ysgrifennu ond dw i'n siŵr byddai'r perfformiad yr un mor ddramatig. Mae Theatr Maldwyn wedi mynd o nerth i nerth dros y pedwar deg mlynedd diwethaf

Stori Owain Glyndŵr yw hi ac mae'n sicr o fod yn noson i fwynhau. Rhai blynyddoedd yn ôl es i'r Lyric yng Nghaerfyrddin i fwynhau detholiad o waith y Theatr ac nid yn unig y to oedd yn codi ond emosiynau pawb hefyd.

Ar hyn o bryd y Lyric yw'r unig le yn y de allwch chi weld y perfformiad.

Peidiwch â'i cholli!

Dysgu Trwy'r Amser

gan Rob Evans

Dw i wrth fy modd yn dysgu geiriau newydd, geiriau sydd yn perthyn i ardal arbennig ac felly ddim yn cael eu defnyddio dros Gymru gyfan. Maen nhw'n perthyn i'r ardal nid y wlad gyfan. Dydy hyn ddim yn arbennig i'r Gymraeg wrth gwrs, mae pob iaith yr un fath.

Fel arfer dw i'n gadael digon o amser i mi gyrraedd man cyfarfod teithiau Cymdeithas Edward Llwyd, dw i'n trio cyrraedd ugain munud i hanner awr cyn y dechrau. Weithiau mae pethau'n mynd o'i le. Dyna ddigwyddodd dydd Sadwrn diwethaf. Y daith yn ardal Ystrad Fflur oedd hi. Roeddwn i'n rhy hwyr yn dechrau ac ar ben hynny roedd rhaid i mi lenwi'r tanc hefyd. Roeddwn i'n lwcus bod y ffordd yn dawel ond yn ystod yr 20 milltir olaf mi wnaeth car ymuno â'r ffordd tua hanner canllath o'm mlaen a chollais lawer o amser.

Ond er hynny cyrrhaeddais mewn amser, roedd hi'n hanner awr wedi deg ac roedd pawb yn prysur gael croeso oddi wrth John, yr

arweinydd. A beth mae hyn i wneud efo tafodiaith leol?

Wel, roeddwn i'n cerdded ac yn siarad efo Dewi ac Enid a Dewi'n troi ataf fi a dweud "Cefais ti dipyn o sgathrad ar y ffordd felly?" Ro'n i'n gallu dyfalu beth oedd sgathrad ond doeddwn i byth wedi clywed y gair o'r blaen. Gair da. Mae'n golygu 'rush' neu 'scramble' yn Saesneg wrth gwrs. Gair onomatopëig ardderchog!

Ffarwel Hen Gar!

gan Cerys Paschali

Mae Cerys yn byw yn Dubai ond mae teulu ei gŵr yn byw ar ynys Cyprus, maen nhw'n mynd yna yn aml ac roedd rhaid cael car.

Gwnaethom osod hysbyseb ar-lein dim ond wythnos yn ôl. Roedd y car wedi cael côt newydd o baent a'i lanhau'n broffesiynol, y tu mewn a'r tu allan, felly roedd yn disgwyl yn bictiwr. Cafodd ei brynu'n gyflym gan deulu â phedwar o blant bach. Car saith sedd am bris mor rhad - wel, roedd yn fargen go iawn i'r teulu newydd! Ond roedd ei werthiant yn golygu diwedd oes i'n teulu ni.



Buodd y car yn anrheg yn rhy hael gan fy nhad-yng-nghyfraith pan gawsom y trydydd plentyn. Roedd yn gar gwyliau fel y gallem i gyd deithio gyda'n gilydd o gwmpas Cyprus. Roedd lle i ddwy sedd car plentyn a sedd bwstwr ar yr un pryd – perffaith ar gyfer tri o blant dan bedair oed! Roeddem yn anhygoel o falch ohono ac fe'i defnyddiwyd yn dda bob gwyliau – yn ôl ac ymlaen i'r traethau ar hyd yr arfordir deheuol, i fyny ac i lawr y mynyddoedd yng nghanol yr ynys, i briodasau, bedyddiadau, angladdau – cerrig milltir bywyd Cyprus. Aeth ein hen gar ffyddlon â ni i bobman. Roedd yn dipyn o broblem na chyrhaeddodd yr aerdymheryr y rhes pen pella'r

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

cefn a'ch bod angen cyhyrau oedolion arnoch i roi'r ffenestri i lawr yn y rhes ganol, ond doedd dim ots gyda ni - roeddem yn ffodus iawn o'i gael o gwbl!

Erbyn i'r pedwerydd babi ymddangos, roedd fy nhad-yng-nghyfraith yn dechrau heneiddio ac roedd ei iechyd yn gwaethygu. Rhoddodd ei le yn y car i'r newydd-ddyfodiad er mwyn iddo'i hun aros gartref. Roedd lle yn dod yn brin a dweud y gwir: roedd pengliniau o dan genau erbyn hyn ac roedd brwydrau cyson dros bwy oedd â'r coesau hiraf. Ond teithion ni ymlaen, ddim bob amser mewn steil. Un haf daethom yn ôl i ddarganfod bod yr haul di-baid wedi achosi i'r paent groenio felly teithion ni fel pe baem yn rhan o gonfoi milwrol gyda'n car wedi'i guddliwio.

Pan nad oeddem yno, roedd fy mrawd-yng-nghyfraith yn defnyddio'r car i fynd i wyliau cerdd gyda'i ffrindiau ac, yn hwyrach, i gludo dodrefn pan symudodd i mewn gyda'i gariad. Fe wnaethom ei basio ymlaen pan oedd ei angen ar gyfer ei ferch fach ei hun ac roedd y ffenestri wedi'u plastro â sticeri tywysogesau Disney. Maes o law, prynodd e gar newydd sbon am ei deulu bach o dri a oedd heb angen am saith sedd.

Am ein ychydig deithiau olaf i Gyprus, buodd yn rhaid i ni rentu car mwy fel teulu gyda thri bachgen cyhyrog sy'n chwarae rygbi a Brenhines sy'n hawlio'r coesau hiraf pawb er taw hi yw'r byrraf.

Nid oedd yr hen gar bellach yn addas at y diben. Roedd yn hen bryd symud ymlaen ...

Llythyr o Tasmania

gan Robin Roberts

Bob dydd rwy'n mynd â'm dau gi am dro yn y parc lleol ger afon lydan y Derwent.

Mae'n lle poblogaidd i berchnogion cŵn sy'n mwynhau sgwrsio tra bod eu cŵn yn chwarae gyda'i gilydd.

Mae digon o goed yn y parc sy'n denu sawl rhywogaeth o adar gan gynnwys y cocatw criog sylffwr adnabyddus. Mae'r cocatws yn aml yn dod i'r parc mewn heidiau o tua 30 neu fwy. Maent yn mwynhau bwydo ar gonau pinwydd yn arbennig. Gallwch weld conau wedi'u cnoi o dan y coed.



Llun gan Kunal Kalra

Mae'r cocatw yn aderyn mawr gwyn fel eira tua maint cyw iâr fach gyda chrib melyn golau. Maen nhw'n acrobatig iawn wrth hedfan ac wrth eistedd mewn coed. Mae'r adar hyn yn adnabyddus am eu sgrech uchel iawn y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn ei ddisgrifio fel sŵn ofnadwy. Ond dwi'n mwynhau stopio i wyluo eu gweithgareddau tra maen nhw'n hongian wyneb i waered ac yn perfformio triciau yn y coed.

Rwy'n meddwl eu bod yn glyfar iawn, yn ddeallus ac yn ddoniol. Efallai nad nhw yw'r mwyaf cerddorol o adar ond dwi wrth fy modd yn eu gwyluo. Mae'n ymddangos eu bod yn cael llawer o hwyl. Rwyf bob amser yn gadael y parc gyda gwên fawr ar fy wyneb pan fyddaf wedi gweld haid o gocatws yn mwynhau'r parc cymaint â mi.

Hanes Y Gymraeg

Y 19fed - Rhan 4

gan Martin Jones

Yn 1851, roedd poblogaeth Cymru yn 1,163,000, ac roedd 67 y cant (sef 780,000) yn siaradwyr Cymraeg. Erbyn 1911, roedd y boblogaeth wedi dyblu i 2,421,000 ac er bod y nifer o siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu i 977,000 (y nifer uchaf erioed), roedd y canran wedi disgyn i 43.5%. Nawr iaith y lleiafrif oedd y Gymraeg.

Gwelodd y cyfnod rhwng 1851 a 1911 dwf enfawr yn y diwydiant glo a doedd hi ddim yn bosib ateb y galw am weithwyr o blith cymunedau amaethyddol Cymraeg. Felly roedd yn rhaid i agor y drysau i fewnfudwyr, yn enwedig o siroedd de-orllewin Lloegr. Yn yr ugain mlynedd cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, roedd graddfa'r mewnfudo i'r meysydd glo Cymru'n ail

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

yn unig i Unol Daleithiau'r America. Priododd llawer o'r mewnfudwyr â merched o Gymry, ac yn aml byddai'r iaith yr aelwyd yn troi i'r Saesneg.

Ac roedd ffactorau eraill yn helpu i Seisnigeiddio Cymru. Yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg, cafodd datblygiad rhwydwaith reilffordd Cymru ei cwblhau, a chafodd Cymru ei hagar i ddylanwad Saesneg. Roedd y rheilffordd yn ganolog nid yn unig i ddatblygiad y diwydiant twristiaeth (ee yn 1883, daeth dros dri chwarter yr ymwelwyr i Aberystwyth o Loegr) ond hefyd i ddosbarthiad papurau newyddion dyddiol o Lundain. Nawr, gallai gweithwyr yng nghymoedd de Cymru ddod o hyd i'r newyddion diweddaraf bob dydd yn lle aros am gylchgronau Cymraeg wythnosol neu fisol - o ran hyn, mae'n bwysig sylweddoli bod canran y boblogaeth oedd yn gallu siarad (a darllen) Saesneg ar gynnydd ar hyd y ganrif ac erbyn 1911 wedi cyrraedd 91.5%.

Roedd blynyddoedd y twf yn y diwydiant glo hefyd yn gyfnod a welodd codiad sosialaeth ac undebaeth lafur. Roedd y symudiadau hyn yn ymdrechu i gael undeb cymunedol a doedden nhw dim am ddioddef pethau a oedd yn sefyll yn y ffordd - gan gynnwys y Gymraeg.

Ac, wrth gwrs, fel gwelon ni yn yr erthygl ddiwethaf, yn sgil Brad y Llyfrau Gleision, roedd y Cymry fwyfwy'n ystyried eu hiaith eu hunain yn iaith eilradd, ac roedd datblygiadau ym myd addysg wedi cryfhau'r cysylltiad rhwng yr iaith Saesneg a "dod ymlaen yn y byd".

Ond mae hanes y Gymraeg yn ail hanner y ganrif yn gymhleth achos roedd rhai ffactorau a oedd yn gweithio yn erbyn y Gymraeg hefyd yn cael effaith positif ar yr iaith. Er i dwf diwydiannol ddenu llawer o fewnfudwyr, mae rhai haneswyr wedi awgrymu na allai Cymru, heb y datblygiad o ddiwydiant, fod wedi cynnal poblogaeth o fwy na hanner miliwn - ac ni fyddai wedi bodloni'r cyfoeth i gynnal gweithgareddau diwylliannol a sefydliadau cenedlaethol. Yn yr un modd, ar y naill llaw agorodd y rheilffordd y drws i ddylanwadau Saesneg ond ar y llaw arall helpodd yr iaith trwy hwyluso dosbarthiad o gyhoeddiadau Cymraeg; trwy ganiatáu i nifer mawr o bobl deithio i ddigwyddiadau fel eisteddfodau; a thrwy helpu economi

amaethyddol gorllewin Cymru gan sicrhau cludiant rhad a chyflym o' cynnyrch.

Yn ystod degawdau olaf y ganrif rydyn ni'n gweld galw am sefydliadau cenedlaethol. Yn 1893, cafodd Prifysgol Cymru ei sefydlu yn cynnwys ei cholegau cyfansoddol yn Aberystwyth, Bangor, Caerdydd, a Llanbedr Pont Steffan (sefydlwyd Abertawe yn 1920). Er nad oedd yr un pwnc yn cael ei addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys Gymraeg ei hun, roedd pob coleg yn hyrwyddo astudiaeth academiaidd o'r iaith a rhoddodd hyn iddi statws deallusol. Yn 1907, sefydlwyd Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth. Roedd hwn yn gam pwysig yn hanes yr iaith, gan i'r llyfrgell ddarparu cartref parhaol i'r llawysgrifau a oedd yn dystiolaeth o hirhoedledd a chyfoeth y Gymraeg, a sicrhau bod llawer o'r defnydd a oedd yn angenrheidiol ar gyfer astudio'r iaith ar gael dan yr un to.

Yn 1890, yn sgil Comisiwn Brenhinol ar Addysg Elfennol, llwyddodd Gymraeg i ddod o hyd i ffordd i mewn i ysgolion cynradd wrth i grantiau gael eu cyflwyno ar gyfer ysgolion oedd yn dysgu Gymraeg. Cam bach iawn oedd hyn, ond er hynny cam ymlaen. Ac yn gynnar yn yr ugeinfed ganrif, cam arall oedd penodiad o Owen M. Edwards yn Brif Arolygwr ysgolion Cymru yn 1907 - fe a sicrhodd fod dysgu'r Gymraeg a dysgu trwy gyfrwng Y Gymraeg yn cael eu hybu.

Ond yn fuan, byddai'r Gymraeg yn gorfod wynebu heriau newydd, gan gynnwys effeithiau'r Rhyfel Byd Cyntaf a'r Dirwasgiad Mawr.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Darganfod Stori

Ydych chi'n chwilio am rywbeth newydd wrth ddysgu Cymraeg?
Hoffech chi brofi antur a datblygu sgiliau creadigol yn Gymraeg?
Dyma'ch cyfle.. dewch ar daith i ddod yn adroddwr
storïau, eich straeon chi!

*Are you an adventurous Welsh learner?
Would you like to explore Cymraeg creatively?
Would you like to come on a journey to become a teller of your
own tales, in Welsh!.*

Cyfres o weithdai yn ystod y flwyddyn, wyneb yn wyneb ac ar lein gydag
obsiwn i berfformio.

A series of workshops in person & an optional performance platform

Lansiad: 20fed o Fawrth

**I ddatgan diddordeb cysylltwch â Nia storidda@gmail.com
to show interest**

Cymdeithas Hanes Bro Ogwr

RHAGLEN 2022/ PROGRAMME

2022

Sgyrsiau yn Gymraeg am hanes a diwylliant Cymreig ar gyfer Dysgwyr a phobl sy'n hollol rhugl.

Talks in Welsh about Welsh history and culture for learners and fluent speakers.

Bydd y sgyrsiau ar Zoom yn ystod 2022

9 MAI (Ymweliad)

**Athro Madeleine Gray - Ymweliad ag
Eglwys Llanilltud Fawr**

13 MEHEFIN (Ymweliad)

Bill Jones - Ymweliad â Phriordy Ewenni

12 MEDI (Zoom – 7 30yh)

**Richard Gammon - William Randolph
Hearst a Chastell St Donats**

10 HYDREF (Zoom – 7 30yh)

**Delyth Jenkins - Hanes y Delyn a
Thaith ar Lwybr Arfordir gyda'i Thelyn**

14 TACHWEDD (Zoom – 7 30yh)

**Sian James - Tair Cymraes Mae Hanes
wedi Anghofio**

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com



Cymdeithas Edward Llwyd

Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru

Elusen Gofrestredig rhif 1126027

Cystadleuaeth Erthygl i'r Naturiaethwr

Hoffech chi'r cyfle i ymarfer eich Cymraeg ysgrifenedig, cael cynnwys erthygl mewn cylchgrawn Cymraeg - ac efallai ennill gwobr o £150?!

Mae Cymdeithas Edward Llwyd yn cynnal cystadleuaeth unwaith eto eleni.

Beth sydd ei hangen yw erthygl ar unrhyw bwnc sy'n ymwneud â byd natur. Beirniadir yr erthyglau ar eu cynnwys yn bennaf, a chânt eu golygu'n ysgafn fel bo'r angen. Y dyddiad cau yw'r **1af o Orffennaf 2022.**

Dylai'r erthygl fod rhwng mil a dwy fil o eiriau, a chroesewir lluniau addas i fynd gyda hi.

Mae rhagor o fanylion, a chanllawiau i ymgeiswyr, i'w cael ar wefan y Gymdeithas: <https://cymdeithasedwardllwyd.cymru/canllawiau/>

Gweld Geiriau

gan Val Richards

A	LL	W	G	M	Y	N	Y	CH	U	R	T
S	O	C	R	E	M	I	DD	Y	A	L	P
G	W	E	I	TH	G	A	R	E	DD	A	U
W	Y	F	T	I	O	N	U	S	Y	W	N
L	E	N	G	A	N	N	O	G	P	H	I
E	S	D	I	N	FF	I	M	T	O	U	G
D	O	E	Y	T	A	B	S	P	R	G	R
I	DD	R	M	H	W	Y	L	U	S	O	Y
G	O	U	S	P	LL	N	I	R	L	Y	W
U	D	Y	FF	R	Y	N	FF	A	E	P	O
L	W	P	E	S	A	O	T	Y	N	DD	F

Yn y pos y mis yma mae 12 o eiriau i chwilio amdanyn nhw. Maen nhw'n rhedeg naill ar draws neu i lawr. - Gwnewch eich gorau!

Atebion mis Ebrill

Ar Draws - Amgylchiadau, Sbaen, Rhwydwaith, Sillafiad, Adlewyrchu, Ffarwelio .

I lawr – Aberystwyth, Gwanwyn, Chwerthinllyd, Trafferth, Cyfarwydd, Golygu

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Geirfa

Cerdded yn yr Haul

Cilfach - layby
 Ffefryn archfarchnad - favourite supermarket
 Arbed amser - to save time
 Amser rhesymol - reasonable time
 Poen yn y pen ôl - pain in the backside
 Llanw - tide
 Cors - marsh
 Gweiriau - grasses
 Cuddfan - (bird) hide
 Cyflfinir - curlew
 Gwarchodfa natur - nature reserve
 Bwthyn - cottage
 Rapsgaliwn - rascal
 Tywallt - to pour
 Lle chwech - toilet
 Mynwent - cemetery
 Rhufeiniaid - the Romans
 Atynfa - an attraction
 Sefyll mewn rhes - to stand in a queue
 cecenfigennus - jealous
 Anelu - to aim for
 Puprynnau melys - sweet peppers
 Sgaliwns - spring onions
 Awyr iach - fresh air
 Iaith y nefoedd - Welsh (of course)
 Anghysbell - remote
 Tebygrwydd cryf - strong likelihood
 Mwynhad pur - pure enjoyment

Bedd yr Iaith?

O dro i dro - from time to time
 Diymhongar - modest
 Diwylliant - culture
 Cyflyru - to condition
 Isradd - inferior
 Cyfrinach - secret
 Sdim ots - no matter
 Anwybyddu - to ignore
 Dychmygwch - imagine
 Ysgrifbin - pen
 Allweddell - keyboard
 Rwtsh - rubbish
 Esgusodion eiddil - weak excuses

Cael paned

Cymhleth - complicated
 Synhwyrol - sensible

Y Cynhwysin Arbennig

Pentyrrau - heaps
 Tacluso - to tidy up
 Â llaw - by hand
 Ysgrifbin - pen
 Cannwyll - candle
 Tegan - toy
 Bysedd pysgod - fish fingers
 Twmplen - dumpling
 Gweinidog - the minister
 Cynhwysyn - ingredient
 Bwrw cysgod - to cast a shadow
 Euraid - golden
 Cyfnewid - to exchange
 Yn yr ystod - in the time
 Gwaith ymchwil - research
 Cynrychioli - to represent

Fy Hoff Deulu

Gwalch y pysgod - osprey
 Y rhyngwyd - the web
 Genedigaeth - birth
 Camau cyntaf - first steps
 Ffrae - quarrel
 Marwolaeth - death
 Gofidio - to worry

Ystrad Fflur

Tynnu coesau - leg pulling
 Casglu - to meet
 Di-ri - innumerable
 Boncyff - tree stump

Profiad Gwych yn Llundain

Gefell - twin
 Nid nepell - not far from
 Syfrdanol - stunning
 Nenfwd - ceiling

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Dringo yn Sbaen

Nunlle - nowhere
Clogwyn - cliff
Gyddfau bachog - hooked necks
Moel - bald
Gosgeiddig - elegant

Ffarwel hen gar

Hysbyseb - advert
Aerdymheryr - heater
Pen pella - the far end
Cyhyr oedolyn - the muscle of a grown-up
Gwaethygu - to worsen
Newydd dyfodiad - new arrival
Gen - chin
Cuddliw - camouflage
Gwyliau cerdd - music festivals
Cludo dodrefn - to carry furniture
Newydd sbon - brand new
At y diben - for the purpose

Llythyr o Tasmania

Llydan - wide
Rhywogaeth - species
Cribog - crested
Haid - flock
Côn pinwydd pine cone
Gweithgareddau - activities
Wyneb i waered - upside down

Hanes y Gymraeg

Poblogaeth - population
Mewnfudo - immigration
Rhwydwaith - network
Dylanwad - influence
Canolog - central
Dosbarthu - to distribute
Ar gynydd - on the increase
Sosialaeth - socialism
Hwyluso - to facilitate
Llawysgrifau - manuscripts
Hirhoedledd - longevity